| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **18 Ebrill 2013** |
| **Cyd Awduron yr Adroddiad:** | **RheolwyrCyfathrebu, Marchnata a Hamdden (CMH) a'r Rheolwr Cyfathrebu a Marchnata Corfforaethol.** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Cynnydd ar yr Ymgyrch Atal Baw Cŵn** |

---

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i aelodau am gynnydd yr Ymgyrch Atal Baw Cŵn yn dilyn lansiad meddal yr ymgyrch ar 18 Chwefror ac adroddiadau blaenorol a gyflwynwyd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) ac Aelodau.

Mae baw cŵn yn ffynhonnell gyson o gwynion i'r Cyngor. Codwyd y mater yn y wasg leol gyda galw cyson ar y Cyngor i fynd i'r afael â'r mater. Amlygwyd baw cŵn hefyd yn yr arolwg trigolion ac mae'n un o'r prif faterion sydd angen mynd i'r afael ag o. Nodwyd hefyd fod baw cŵn yn fater diogelwch cymunedol ac yn dreth ar adnoddau corfforaethol.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Gan fod hon yn ymagwedd newydd a modern tuag at ymgyrchoedd marchnata i'r Cyngor, rhoddwyd yr wybodaeth ddiweddaraf i aelodau a'r UDA ar gynnydd yr ymgyrch drwy negeseuon e-bost. Bydd yr adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am gynnydd yr ymgyrch hyd yn hyn a chynlluniau wrth symud ymlaen dros y misoedd i ddod.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Dylai'r Pwyllgor Archwilio:

3.1 ystyried yr adroddiad, sy'n amlygu'r cynnydd ac effaith yr ymgyrch wrth fynd i'r afael â phroblem baw cŵn yn y Sir a gwneud sylwadau'n unol â hynny, ac
3.2 ystyried adolygu'r sefyllfa unwaith eto ymhen 6 mis.

**4. Manylion am yr adroddiad.**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor Archwilio am sefyllfa bresennol yr ymgyrch ac ystyriaethau wrth symud ymlaen. Mae'n rhoi manylion y gweithgarwch marchnata sy'n digwydd ar hyn o bryd a chynlluniau ar gyfer symud ymlaen.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu unrhyw faterion ac argymhellion hyd yn hyn.

**4.1 Gweithgarwch hyd yn hyn:**

Mae'r penderfyniad i ddefnyddio ymagwedd farchnata mor sylweddol a chydlynol, o'i gymharu â'r hyn sydd wedi'i wneud o'r blaen, yn defnyddio cryfderau'r holl wasanaethau dan sylw i hyrwyddo a chyflawni dull y Cyngor o wrando ac yna ymateb i'w gymunedau. Mae'r Cyngor wedi cydnabod yr angen i fod yn fwy cadarn, cydlynol a chynhwysfawr wrth orfodi ac addysgu am faterion yn ymwneud â baw cŵn yn y Sir. Mae'r ymgyrch wedi

caniatáu'r Cyngor i gyfathrebu'r modd y mae'n cyflawni blaenoriaethau corfforaethol allweddol drwy ddarparu amgylchedd glân ledled y Sir.

Mae'r ymgyrch rŵan yn y broses o gael ei lansio gydag ymagwedd feddal. Bydd hyn yn caniatáu defnyddio sawl sianel gyfathrebu dros gyfnod, gan atgyfnerthu'r neges dros yr wythnosau a'r misoedd i ddod fod y Cyngor o ddifrif ynglŷn â hyn yn hytrach na chael un lansiad mawr lle byddai'r negeseuon yn mynd ar goll. Pwrpas strategol yr ymagwedd newydd hon yw cynnal ymgyrch aml-gyfrwng wedi'i brandio'n glir yn amlygu'r canlynol:

- Deall pam fod hon yn broblem yn Sir Ddinbych.
- Codi ymwybyddiaeth am faterion baw cŵn yn Sir Ddinbych.
- Addysgu pobl am beryglon iechyd yn ymwneud â baw cŵn.
- Cysylltu ac ymgynghori â'r gymuned leol a phartneriaid allweddol i gynyddu cyfrifoldeb cymdeithasol i gadw strydoedd yn lân a lleihau'r math hwn o ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gostwng y nifer o achosion o faw cŵn yn y sir.

Hyd yn hyn, cynhaliwyd y gweithgarwch a ganlyn:
4.1.1 Cyfathrebu – Y Wefan a Chyfryngau Cymdeithasol
4.1.2 Deunyddiau marchnata
4.1.3 Cysylltiadau Cyhoeddus
4.1.4 Cydweithrediad a chynnwys y gymuned

Gweler y manylion pellach yn yr atodiadau sydd ynghlwm (Atodiad 1).

**4.1.5 Dadansoddi ystadegau rhwng 18 Chwefror a 20 Mawrth:**

Casglwyd ystadegau o'r arolwg ar-lein a'r system reoli gwasanaethau cwsmeriaid (CRM) i ganfod ym mha ardaloedd y mae'r mannau problemus ar hyn o bryd. Mae'r ystadegau'n cael eu monitro'n wythnosol.
I grynhoi, y 5 prif fan problemus yw:

- Y Rhyl
- Rhuthun
- Dinbych
- Prestatyn
- Rhuddlan / Llanelwy

Gweler y manylion pellach yn yr atodiadau sydd ynghlwm. (Atodiad 2)

**4.2 Gweithgarwch wrth symud ymlaen:**

Mae angen cynllunio a gweithredu nifer o weithgareddau ategol fel rhan o'r ymgyrch. Mae'r rhain yn cynnwys:

4.2.1 Rhaglen Addysg:
4.2.2 Ymgynghoriad a Chynnwys y Gymuned:
4.2.3 Deunyddiau Marchnata:
4.2.4 Cyfryngau Cymdeithasol a Thechnoleg:
Gweler y manylion pellach yn yr atodiadau sydd ynghlwm (Atodiad 3).

**4.3 Ystyriaethau i'r Dyfodol:**

Mae'r ymgyrch hon wedi'i sefydlu ond mae angen ystyried hyd yr ymgyrch ac adnoddau pellach sydd ar gael i gefnogi dull darparu hyn. Y prif gostau parhaus yw ail-ddarparu

deunydd marchnata, amser swyddogion a’r rhif ffôn 0800 ac am ba hyd y bydd hwn yn parhau i fod ar gael. Neilltuwyd y gyllideb bresennol ar gyfer yr ymgyrch am 6 mis.

**5. Gwybodaeth Gefndir Ddefnyddiol:**

Dylai aelodau’r Pwyllgor gael golwg ar yr adroddiad blaenorol a gyflwynwyd i’r Pwyllgor Archwilio ym mis Mehefin 2012 (Effeithiolrwydd Camau Gorfodi – Baw Cŵn)**.**

**Gweithgarwch blaenorol a gyflawnwyd i fynd i’r afael â’r mater:**

Yn 2009, cyflwynodd Parc Gwledig Loggerheads gynllun lle’r chwistrellwyd paent melyn ar faw cŵn fel ymgyrch i godi cywilydd. Roedd hon yn ymgyrch mwy gweledol ac ni arweiniodd at unrhyw fuddion tymor hir. Maent bellach yn cynnal fforwm cerddwyr cŵn anffurfiol ddwywaith y flwyddyn lle gwahoddir cerddwyr cŵn sy’n defnyddio Loggerheads yn rheolaidd i ddod draw i sgwrsio am y parc ac unrhyw bryderon sydd ganddynt. Hyd yn hyn, cynhaliwyd tri chyfarfod ac maent wedi bod yn ddefnyddiol iawn.

Yn 2010-11, lansiodd y sir ymgyrch atal baw cŵn, gyda chefnogaeth y tîm cyfathrebu corfforaethol a gwaith ar y cyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, gan olygu bod pedwar swyddog ar gael yn y sir. Rhoddwyd 55 cosb benodol o ganlyniad. Yn 2011-12, bu gostyngiad mewn cosbau penodol ar draws y sir gan fod rhagor o berchnogion yn codi baw ar ôl eu cŵn. Yn sgil y cynnydd hwn yn ymwybyddiaeth y cyhoedd, profodd y sir gynnydd yn y nifer o gwynion a gyflwynwyd. Roedd hefyd cyfnod o 20 wythnos lle’r oedd contractwyr yn cyflwyno cosbau penodol ond tawelodd hyn i lawr. Roedd y gweithgarwch fel rhan o’r ymgyrch hon yn llwyddiant ond nid oeddynt wedi’u cydlynu a’u cymell i fod yn gynaliadwy. Mae’r gweithgareddau hyn wedi’u cynnwys yn yr ymgyrch hon ond byddant wedi’u cydlynu a’u cynllunio. Yn 2012, daeth y gwaith ar y cyd rhwng y ddwy sir i ben a dim ond dau swyddog gorfodi sydd ar gael ar draws y sir, sy’n cael eu cefnogi gan XFOR. Y broblem fwyaf sy’n wynebu’r tîm gorfodi yw casglu tystiolaeth ddibynadwy a datganiadau gan dystion i gefnogi unrhyw gosbau penodol neu erlyniadau.

**6. Sut mae’r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Bydd ystyried y materion a amlygwyd yn yr adroddiad yn cynorthwyo’r Cyngor i gyflawni ei flaenoriaeth gorfforaethol mewn ffordd fodern, sy’n fforddiadwy ac yn gynaliadwy er budd y gymuned leol, a heb gael effaith niweidiol ar drigolion y Sir.

**7. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Ar hyn o bryd, ni roddwyd ystyriaeth i gostau parhaus. Byddai costau parhaus cynhyrchu deunyddiau ac amser swyddogion i reoli’r ymgyrch, gorfodi a glanhau mannau problemus yn effeithio ar Gynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, yr Amgylchedd a Chyfathrebu, Marchnata a Hamdden.

**8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?**

Lluniwyd yr adroddiad hwn mewn ymgynghoriad llawn â’r Penaethiaid Gwasanaeth a ganlyn: Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden; Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a Phriffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol, ymgynghorwyd ag aelodau, ynghyd â’r Aelod Arweiniol Parthau Cyhoeddus.

Mae'r Rheolwr Ymrwymiad Cymunedol yn cynnal ymgynghoriadau gyda Grwpiau Ardal Aelodau (GAA) i drafod y strategaeth Atal Baw Cŵn. Unwaith y cytunir ar hyn, bydd taflen yn cael ei chynhyrchu ar gyfer y cyhoedd a fydd ar gael mewn lleoliadau allweddol o amgylch y Sir er mwyn atgyfnerthu'r ymgyrch.

**9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Ariennir cost yr ymgyrch bresennol o fewn yr adnoddau presennol. Byddai'n rhaid ystyried goblygiadau o ran adnoddau fel rhan o unrhyw asesiad i barhau â'r ymgyrch y tu hwnt i'r tymor presennol.

**10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Rhai o'r risgiau posibl i lwyddiant a chynaladwyedd yr ymgyrch yw cefnogaeth y gymuned leol. Mae angen nodi'n glir bod angen i gymunedau rannu cyfrifoldeb gyda'r cyngor i gyflawni ein hamcanion. Caiff hyn ei gyflawni drwy gael pobl leol a chynghorau dinas, tref a chymuned i gefnogi'r ymgyrch, i weithredu fel ein llygaid a'n clustiau yn y gymuned ac adrodd yn gywir am broblemau gan roi manylion perthnasol am droseddwyr. Byddai hyn yn cael ei gyflawni drwy ymgynghori'n effeithiol gyda GAA ac ati.

**11. Pŵer i wneud y Penderfyniad**
Erthygl 6.3 Cyfansoddiad y Cyngor

**12. Dogfennau Ategol**
- Gweithgarwch marchnata hyd yn hyn
- Gweithgarwch wrth symud ymlaen
- Ystadegau o'r arolwg ar-lein a'r CRM

Cyflwynir y dogfennau a ganlyn yn ystod y Pwyllgor Archwilio:
- Esiamplau o sylw gan y wasg
- Strategaeth Ddrafft Atal Baw Cŵn, i'w rhyddhau ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad.
- Esiamplau o ddeunydd hyrwyddo a ddefnyddiwyd – posteri, cardiau post, arwyddion polion lamp, baneri ac ochrau lorïau bin.
- Cynllun Marchnata ar gyfer yr ymgyrch

**13. Erthyglau Cyfryngau Cymdeithasol:**
- http://northwalesextra.com/dog-fouling-denbighshire-says-enough-is-enough/
- http://www.denbighshirefreepress.co.uk/news/120406/hard-hitting-poster-is-to-target-dog-fouling.aspx
- https://twitter.com/DenbighshireCC/statuses/305974199904792577
- http://www.facebook.com/#!/denbighshirecountycouncil?fref=ts
- http://www.facebook.com/#!/pages/Denbighshire-Free-Press/150777091689187?fref=ts

Mae nifer o negeseuon wedi'u trydar ar gyfrif twitter y Cyngor yn tynnu sylw at y mater https://twitter.com/CyngorSDd

**Swyddog Cyswllt:**
Swyddog Marchnata, Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden
Ffôn: 01824 706215